

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 10/12/2010



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Old Bell 3 Cyf., Dateb a Sbectrwm

Barn yr ymchwilyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cynulliad Cymru

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

David Roberts

Yr Is-adran Ymchwil Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5483

E-bost: David.Roberts@wales.gsi.gov.uk

Llywodraeth Cymru, 2011

© Hawlfraint y Goron

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD	4
2. CEFNDIR.....	6
3. SAIL Y FFRAMWAITH GWERTHUSO	8
4. FFOCWS Y FFRAMWAITH GWERTHUSO	9
5. STRWYTHUR Y FFRAMWAITH GWERTHUSO ARFAETHEDIG.....	11
6 DULLIAU GWERTHUSO	21
7. DULLIAU METHODOLEGOL GWERTHUSO.....	31
8. GWEITHREDU'R FFRAMWAITH GWERTHUSO	35
ATODIAD 1: CEFNDIR EHANGACH POLISI ADDYSG A SGILIAU.....	38
ATODIAD 2: RHESTR O GYFRANWYR	46
ATODIAD 3: LLYFRYDDIAETH.....	47

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Old Bell 3 Cyf., mewn cydweithrediad â Dateb a Sbectrwm, wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg¹.
- 1.2 Bwriedir defnyddio'r fframwaith gwerthuso fel arf i sicrhau cysondeb a chymaroldeb wrth adolygu effeithiolrwydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag effeithiau, effeithiolrwydd ag effeithlonrwydd y polisiau a weithredir yn ei henw. Yn fwy penodol, mae'r fframwaith yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru o ran asesu:
- a yw'r honiadau/damcaniaethau sy'n tanategu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn gadarn eu sylfaen;
 - ar sail profiad, a yw nodau ac amcanion y Strategaeth yn briodol ac oes modd eu cyflawni;
 - pa mor effeithiol mae gwahanol elfennau o'r Strategaeth yn gwau gyda'i gilydd a gyda pholisiau eraill Llywodraeth Cymru;
 - y graddau y mae'r Strategaeth yn cynnig llwyfan i Uned y Gymraeg mewn Addysg hyrwyddo twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg;
 - y graddau y mae'r Strategaeth yn arwain at y newidiadau a geisir o fewn y system addysg a hyfforddiant;
 - effeithiolrwydd gweithdrefnau cefnogi (gan gynnwys trefniannau ariannu) sydd eu hangen i greu newid;
 - ffactorau sy'n rhwystro neu'n hwyluso gwireddu nodau ac amcanion y Strategaeth;
 - a yw gweithgareddau yn cynrychioli gwerth am arian;
 - effeithiolrwydd gweithgareddau penodol a gyflawnir yn enw'r Strategaeth;
 - sut y dylai'r Strategaeth, neu ei darnau cydrannol, newid er mwyn gwireddu dyheadau Llywodraeth Cymru.

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

1.3 Mae datblygu fframwaith gwerthuso mor fuan ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth yn arwydd o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth ac ystyried pa mor effeithiol y mae polisïau yn gweithio, ac i gyflwyno newidiadau yn sgil yr hyn a ddaw i'r amlwg. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod y fframwaith gwerthuso yn ddigon hyblyg i ganiatáu esblygiad o fewn dulliau gwerthuso wrth i amser symud ymlaen ac wrth i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gael ei gwireddu.

1.4 Mae'r gwaith a wnaed wrth ddatblygu'r fframwaith gwerthuso wedi cynnwys:

- adolygu ystod o ddogfennau cefndir, gyda phwyslais penodol ar bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg ac addysgu/dysgu;
- datblygu rhai syniadau cynnar yn ymwneud â fframwaith gwerthuso posibl;
- rhannu ein syniadau cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol a'u gwahodd i roi sylwadau ac awgrymu gwelliannau;
- diwygio ein fframwaith gwerthuso drafft cychwynnol yn dilyn cyngor gan rhanddeiliaid;
- rhannu fframwaith drafft diwygiedig gyda'r un rhanddeiliaid a gwahodd sylwadau pellach;
- diwygio'r fframwaith ymhellach er mwyn cynhyrchu'r papur hwn.

1.5 Yn Atodiad 2, cyflwynir rhestr o'r unigolion a gynigiodd sylwadau ar ein fframwaith gwerthuso drafft. Cawsom ein calonogi o dderbyn eu hymatebion cadarnhaol i'n cynigion, a hoffwn ddiolch iddynt am eu hadborth adeiladol. Yn benodol, cawson ein calonogi gan farn gyffredinol cyfranwyr fod y fframwaith arfaethedig yn arf rhesymegol, dealladwy a chynhwysfawr, fydda'n atgyfnerthu'r weledigaeth a'r dyheadau a'u mynegir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

1.6 Yn yr adrannau sy'n weddill o'r papur hwn rydym:

- yn trafod yn fras y cefndir polisi ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (adran 2);
- yn trafod ffocws y fframwaith gwerthuso (adran 3);
- yn trafod strwythur y fframwaith gwerthuso (adran 4);
- yn archwilio methodolegau gwerthuso posibl (adran 5);
- yn argymhell dulliau o fynd i'r afael ag elfennau allweddol o'r gwaith gwerthuso sydd i'w gwblhau (adran 6).

2. CEFNDIR

2.1 Ers ei ffurfio, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i adfywio'r iaith Gymraeg. Rhoddodd Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Ddwylieithog, (2003), lais i uchelgais Llywodraeth Cymru i greu 'Cymru gwbl ddwyieithog' ac i weld 'cynnydd cyson yn nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg' (tud 11). Cydnabu'r ddogfen 'swyddogaeth hollbwysig' y sector addysg o safbwynt 'gwireddu ein dyheadau ar gyfer Cymru ddwyieithog' (tud 38). Datblygodd Cymru'n Un (2007)² yr ymrwymadau a wnaed yn Iaith Pawb a nodi bwriad Llywodraeth Cymru i 'creu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu' (tud 22). Cafodd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2010.

2.2 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cychwyn trwy gyfleu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd yn eu cymunedau ac yn y gweithle.' (tud 4). Mae'r ddogfen

² Cymru'n Un: Agenda flaengar ar gyfer Llywodraeth Cymru: Cytundeb rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, Mehefin 2007

yn mynd rhagddi i nodi chwech o 'nodau strategol' sy'n ymwneud â:

1. Cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sy'n ymateb i'r galw, yn y cyfnodau cyn-statudol a statudol;
2. Cynllunio darpariaeth addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, sy'n ymateb i'r galw yn y cyfnodau ôl-14;
3. Sicrhau datblygiad sgiliau yn yr iaith Gymraeg, ac annog cynnydd ieithyddol;
4. Datblygu gweithlu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg;
5. Gwella'r mecanweithiau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg;
6. Atgyfnerthu caffaeliad iaith.

2.3 Caiff y 'nodau strategol' hyn eu tanategu gan 43 o 'amcanion strategol' sy'n arwain at bron i 200 o 'weithredoedd' i'w cyflawni ar wahanol adegau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr addysg a hyfforddiant a 'chyrff arwain eraill'. Mae'r Strategaeth yn nodi naw targed 'canlyniad' meintiol.

2.4 Wrth gwrs, un elfen yn unig yw'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg o bolisi a fframwaith deddfwriaethol ehangach y mae Llywodraeth Cymru wedi ei sefydlu yn ddiweddar i gefnogi'r iaith Gymraeg. Mae'r *Mesur Iaith Gymraeg (Cymru)* (2011) yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg ac yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg, a fydd â'r pŵer i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori, *Iaith fyw: Iaith byw: Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg* (2010), sy'n tanlinellu'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg tra'n cyfeirio hefyd at brif-ffrydio ystyriaethau'r iaith Gymraeg mewn meysydd polisi eraill fel iechyd, tai a chymorth busnes.


2.5 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg hefyd yn cyd-fynd â datblygiadau ehangach mewn polisiâu addysg a sgiliau Cymraeg, rhai ohonynt yn cynnwys darpariaeth benodol mewn perthynas â'r iaith

Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Trafodir y rhain ymhellach yn Atodiad 1.

3. SAIL Y FFRAMWAITH GWERTHUSO

- 3.1 Wrth ddatblygu'r fframwaith gwerthuso, rydym wedi defnyddio model rhesymeg fel y dangosir yn Ffigur 1. Pwrpas y model rhesymeg hwn yw creu dealltwriaeth benodol o'r cysylltiadau a ddisgwylir rhwng y buddsoddiadau a wneir yn y system addysg a hyfforddiant, y gweithgareddau a gynhelir gan randdeiliaid amrywiol wrth weithredu'r Strategaeth a'r effaith a ddisgwylir, yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae'r model yn rhoi mynegiant i rai o'r honiadau/damcaniaethau sy'n tanategu'r Strategaeth ac yn ystyried effaith ffactorau allanol, sy'n debygol naill ai o helpu neu rwystro cyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth.

Ffigur 1: Y Model Rhesymeg sy'n Tanategu'r Fframwaith Gwerthuso




- 3.2 Er bod y model rhesymeg a gyflwynir yn rhoi dull o fynegi'r cysylltiadau achosol a ddisgwylir, mae ganddo'r gwendid o awgrymu bod y cysylltiadau achosol hynny'n hydredol o anghenraid. Ni fydd hyn yn wir bob amser a dylid ystyried y model fel cymorth i'r broses o feddwl yn hytrach na rhywbeth sy'n categoreiddio gweithredoedd ac effeithiau yn gadarn fel 'gweithgareddau', 'cynnyrch', 'canlyniadau' neu 'ddylanwadau'.

4. FFOCWS Y FFRAMWAITH GWERTHUSO

- 4.1 Fel y trafodir uchod, bwriad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw cyfrannu at agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg trwy sefydlu system addysg a hyfforddiant sy'n galluogi pobl o bob oed a gallu i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Ffocws pennaf y Strategaeth yw datblygu ac ymestyn cyfleoedd dysgu iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg – yn ei hanfod, cryfhau cyflenwad addysg – fel bod modd i bobl gymryd rhan mewn dysgu, er mwyn caffael sgiliau a lefelau penodol a symud ymlaen i'r lefel nesaf, nes eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn fedrus ac yn hyderus.
- 4.2 Mae Ffigur 2 isod yn ceisio cymhwyso'r model rhesymeg a drafodir uchod i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg er mwyn dangos yr effaith y disgwylir i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ei chael ar y system addysg a hyfforddiant (dylanwad ar gyflenwad addysg a hyfforddiant) a'r ffordd y disgwylir i system addysg a hyfforddiant cryfach, yn ei thro, hwyluso caffaeliad a defnydd pobl o sgiliau iaith Gymraeg (dylanwad ar y galw).

Ffigur 2: Model Cysyniadol sy'n Tanategu'r Fframwaith Gwerthuso



- 4.3 Mae'r model cysyniadol yn nodi tri disgrifiwr o'r amodau angenrheidiol, yn ôl y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw, i greu'r twf a geisir yn y cyfleoedd dysgu iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg sydd ar gael:
- o mae'r cyntaf, a'r pwysicaf, yn ymwneud â bodolaeth amodau sy'n caniatáu datblygu a gweithredu cynlluniau pwrpasol ar gyfer

cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod o addysg a hyfforddiant;

- yn ail, bodolaeth gweithlu â sgiliau digonol a phriodol; ac
- yn drydydd, bodolaeth amgylchedd sydd yn annog ac yn galluogi.

4.4 Mae'r disgrifwyr hyn sy'n ymwneud â'r 'drefn cyflenwi addysg' yn seiliedig yn fras ar nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yn ffurfio sylfaen mesurau 'effaith' o fewn y fframwaith gwerthuso.


4.5 Mae Ffigur 2 uchod hefyd yn nodi tri phrif ddisgrifiwr y dylanwad y disgwylir i'r Strategaeth ei gael ar y 'galw' - cyfranogiad, cyrhaeddiad a dilyniant. Mae'r disgrifwyr hyn yn adeiladu ar y targedau 'canlyniad' a nodwyd yn y ddogfen Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yn eu hanfod yn cyfleu cydrannau allweddol y cylch rhinweddol y disgwylir iddo arwain dysgwyr yn gynyddol tuag at ruglder.

5. STRWYTHUR Y FFRAMWAITH GWERTHUSO ARFAETHEDIG

5.1 Cyflwynir y Fframwaith Gwerthuso fel cyfres o dablau â chodau lliw sy'n ceisio cyfleu'r ffordd y disgwylir i weithgareddau a wneir o dan nawdd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg arwain at wireddu'r prif fesurau dylanwad cyflenwi (neu systemig) a nodir yn Ffigur 2. Mae'r mesurau gweithgaredd yr ydym yn eu cynnig yn ceisio cyfleu ymwthiad y 200 neu fwy o 'weithredoedd' y mae'r Strategaeth yn eu nodi.

5.2 Cyflwynir tabl ar wahân mewn perthynas â phob un o'r mesurau dylanwad ar y drefn gyflenwi. Mae'r tablau hyn hefyd yn ymarfer rhai o'r honiadau a wneir wrth ddatblygu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ogystal â rhai ffactorau allanol allweddol (yn cynnwys polisiau eraill Llywodraeth Cymru e.e. Strategaeth yr Iaith Gymraeg) sy'n debygol o ddylanwadu ar ei gweithredu a'i heffeithiau. Mae Ffigur 3 yn dangos strwythur y tablau hyn.

Ffigur 3: Strwythur Tablau'r Fframwaith Gwerthuso



Tabl 1 – Thema'r Cyflenwyr 1: Cynllunio Darpariaeth a Threfniadau Cymorth

GWEITHGAREDD	ALLBWN	CANLYNIAD	EFFAITH
Cyfleu cyfeiriad strategol ac arweiniad clir y mae rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn teimlo eu bod yn gallu ymateb iddo Archwilio dichonoldeb datblygu continwwm iaith Mapio'r galw am ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r ddarpariaeth bresennol, ar draws pob cyfnod o addysg a hyfforddiant Nodi llwybrau galwedigaethol lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg Rhoi blaenoriaeth i gyrsiau, adnoddau a chymwysterau iaith Gymraeg i'w datblygu Rhoi blaenoriaeth i gyrsiau, adnoddau a chymwysterau cyfrwng Cymraeg i'w datblygu Asesu'r defnydd posibl o dechnoleg i hyrwyddo a chyflwyno dysgu iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg	Addysg cyfrwng Cymraeg yn ystyriaeth graidd wrth ddatblygu polisi addysg Datblygu dull trwyadl sy'n hawdd ei ddeall ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg pobl o bob oed ar draws pob lefel Rhanddeiliaid yn cydweithio wrth gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau cyn-statudol a statudol Rhanddeiliaid yn cydweithio i gynllunio addysg iaith Gymraeg, cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n hybu dilyniant ieithyddol dysgwyr ôl-16 Datblygu/comisiynu adnoddau addysgu a dysgu iaith Gymraeg newydd Datblygu cyrsiau a chymwysterau iaith Gymraeg pwrpasol ar gyfer grwpiau targed Datblygu/comisiynu adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog newydd Datblygu cyrsiau, adnoddau a chymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg Defnyddio technoleg i hyrwyddo dysgu cyfrwng Cymraeg a galluogi mynediad i adnoddau	Fframwaith polisi ac ariannu sy'n hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg Cynlluniau cydlynol ar gyfer cynyddu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ar bob lefel (yn cynnwys cymorth sgiliau sylfaenol) Ystod gydlynol o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg a galluogi cydnabod sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr ar lefelau amrywiol? Cynlluniau cydlynol ar gyfer ymestyn argaeledd cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg ar bob lefel (yn cynnwys argaeledd ar gyfer y rheiny ag Anghenion Dysgu Ychwanegol) Ystod gydlynol o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg a galluogi dysgwyr i gael eu hasesu yn Gymraeg?	Gweithredu cynlluniau cydlynol a phwrpasol ar gyfer cyflenwi darpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod o addysg a hyfforddiant ac ar gyfer darparu adnoddau cymorth ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

HONIADAU/DAMCANIAETHAU	FFACTORAU ALLANOL
Mae datblygu sgiliau iaith Gymraeg trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd bywyd unigolion	Y graddau y caiff ystyriaethau iaith Gymraeg eu hadlewyrchu mewn polisïau addysg a sgiliau e.e. Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn
Mae angen i ddisgyblion wneud o leiaf 70% o'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn bod yn rhugl	Gostyngiad yn niferoedd y bobl ifanc sy'n preswyllo mewn cartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad
Mae gormod o bobl ifanc yn newid o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn bennaf wrth newid i gyfnodau allweddol dilynol ac wrth newid i ddarpariaeth anstatudol	Mae'r pwysau ariannol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu, wedi ei gyfuno â gostyngiad yng nghofrestrau ysgolion, yn rhoi pwysau ar awdurdodau lleol i ad-drefnu
Mae addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn costio mwy i'w ddarparu nag addysg uniaith Saesneg	Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu gorfodi i ad-drefnu eu 'timau addysg' wrth wynebu pwysau ariannol a disgwyliad Llywodraeth Cymru y byddant yn cydweithredu o fewn consortia
Mae sgôp ar gyfer gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy sicrhau bod rhwydweithiau dysgu lleol yn cydweithio dros ardaloedd daearyddol ehangach (trwy gonsortia rhanbarthol)	
Mae cyrsiau mwy dwys dros gyfnodau byrrach yn fwy effeithiol wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg na rhai llai dwys sy'n cael eu cyflwyno dros gyfnod hwy o amser	
Mae galw cudd am addysg iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg: pe byddai mwy o gyfleoedd yn bodoli i ddysgu Cymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, byddent yn cael eu defnyddio	

Tabl 2 – Thema Cyflenwyr 2: Datblygiad Gweithlu Ymarferwyr Dysgu

GWEITHGAREDD	ALLBWN	CANLYNIAD	DYLANWAD
Sefydlu safon ieithyddol ofynnol ar gyfer y rheiny sy'n dymuno gweithio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg	Dealltwriaeth gyffredin o'r sgiliau iaith Gymraeg ac addysgeg y mae ymarferwyr eu hangen		
Sefydlu offeryn ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr			
Hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau iaith Gymraeg i ymarferwyr presennol a phosibl y dyfodol	Darlun clir o lefelau sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr		
Creu model o weithlu iaith/cyfrwng Cymraeg	Amgyffrediad bod sgiliau iaith Gymraeg yn bwysig i weithwyr proffesiynol addysgu/hyfforddiant yng Nghymru	Cyflwyno cyrsiau HCA a rhaglenni Sefydlu a DPC deallus a phwrpasol, fel sy'n briodol, sy'n mynd i'r afael â'r angen am sgiliau addysgu iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg	
Cynnwys elfennau sgiliau iaith Gymraeg/addysgeg mewn cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) ac mewn rhaglenni Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)	Bodolaeth a datblygiad parhaus modiwlau addysgeg iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg mewn cyrsiau HCA ac mewn rhaglenni Sefydlu a DPC	Cyflwyno rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n mynd i'r afael â'r angen am sgiliau addysgu iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg	Bodolaeth niferoedd digonol o ymarferwyr â sgiliau a chymwysterau priodol
Datblygu rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus iaith/addysgeg Cymru gyfan			
Gwneud ymchwil pellach i gaffaeliad iaith a methodolegau addysgu iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg	Bodolaeth a datblygiad parhaus modiwlau addysgeg iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg mewn cyrsiau hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus		

HONIADAU/DAMCANIAETHAU	FFACTORAU ALLANOL
Ar hyn o bryd nid oes digon o ymarferwyr â sgiliau iaith Gymraeg priodol³. Y ffordd fwyaf effeithiol o wella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn sylweddol yw trwy gyrsiau dwys fel y rheiny a gynhelir ar y Cynllun Sabothol	Efallai nad yw ALLau yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg/addysgeg ymarferwyr i'r graddau y mae Llywodraeth Cymru eisiau iddynt wneud
	Gall pwysau ariannol ar sefydliadau arwain at leihad yn y gweithlu addysgu
	Mae pwysau ariannol ar sefydliadau yn ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn rhyddhau ymarferwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant
	Gall pwysau cyflawni rwystro defnydd ymarferwyr o sgiliau iaith Gymraeg sydd newydd eu caffael
	Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata cyson ar lefelau sgiliau iaith Gymraeg athrawon i lywio rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus
	Mae nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio Cymraeg lefel A wedi aros yn ei unfan, sydd yn cyfyngu ar ffynhonnell bosibl o athrawon iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg
	Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae diffyg athrawon uwchradd i addysgu Cymraeg fel Ail iaith

³ Er bod peth tystiolaeth ystadegol fydda'n creu amheuaeth ynglŷn â'r ddamcaniaeth hon

Tabl 3 – Thema Cyflenwyr 3: Creu Amgylchedd Cefnogol

GWEITHGAREDD	ALLBWN	CANLYNIAD	DYLANWAD
Hyrwyddo gwerth diwylliannol ac economaidd/cysylltiedig â gwaith perthnasol sgiliau iaith Gymraeg Darparu gwybodaeth glir a chytbwys am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac opsiynau iaith sydd ar gael Bodolaeth cyfleoedd dysgu anffurfiol/heb fod yn ffurfiol o fewn lleoliadau addysg Darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl ifanc yn y gymuned Darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i oedolion yn y gymuned	Rhieni a phobl ifanc yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am gael addysg cyfrwng Cymraeg Pobl ifanc yn dod yn fwy hyderus ac yn arfer defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth Dysgwyr sy'n oedolion yn dod yn fwy hyderus ac yn frwdfrydig wrth ddefnyddio'r Gymraeg Ymwybyddiaeth o fuddion a gwerth sgiliau iaith Gymraeg ymysg grwpiau rhanddeiliaid amrywiol	Rhieni a phobl ifanc yn teimlo'n fwy hyderus yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant neu eu hunain Dysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn dod yn fwy cyffredin Siaradwyr Cymraeg rhugl yn arfer defnyddio'r Gymraeg gyda dysgwyr Cyflogwyr a gweithwyr yn cydnabod buddion posibl sgiliau iaith Gymraeg i fusnesau	Pobl wedi eu hargyhoeddi o fuddion sgiliau ac yn gallu atgyfnerthu caffaeliad sgiliau o'r fath y tu hwnt i'r amgylchedd dysgu ffurfiol
HONIADAU/DAMCANIAETHAU	FFACTORAU ALLANOL		
Mae'r 'system' yn gallu adnabod a chyfleu anghenion iaith Gymraeg cyflogwyr yn effeithiol	Dros amser, mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg yn debygol o newid agweddau a disgwyliadau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg Mae gwaith gweithwyr ieuenctid Cymraeg eu hiaith a sefydliadau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn bwysig i ennyn hyder ymysg pobl ifanc wrth ddefnyddio'r iaith		

Mae Blychau 1 i 3 isod yn ehangu ar y prif ddangosyddion 'galw' i gael eu monitro dros amser.

Blwch 1: Thema 'Galw' 1: Cyfranogiad:

1. Nifer a chyfran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ar draws pob cyfnod;
2. Y gyfran o ddisgyblion Blwyddyn 2 a asesir eu Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg⁴;
3. Y gyfran o ddisgyblion Blwyddyn 6 gaiff eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf;
4. Y gyfran o ddisgyblion Blwyddyn 9 gaiff eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf⁵;
5. Nifer a chyfran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith yn y Cyfnodau Allweddol amrywiol;
6. Cyfran y dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ond sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol;
7. Y graddau y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfarwyddyd yn y cyfnodau allweddol amrywiol;
8. Nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog cyn-statudol h.y lleoliadau gofal plant, meithrinfeydd, grwpiau chwarae ac ati;
9. Nifer a chyfran y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog⁶;
10. Nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf;
11. Nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith;
12. Nifer a chyfran y dysgwyr ôl-16 sy'n gwneud modiwlau iaith Gymraeg mewn cyrsiau;
13. Nifer a chyfran y dysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion⁷;
14. Nifer a chyfran y dysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg bellach⁸;
15. Nifer a chyfran y dysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn cyrsiau seiliedig ar waith trwy gyfrwng y Gymraeg⁹;

⁴ Mae'r dangosydd hwn yn cyfateb, cyn agosed â phosib, i 'Ddeiliant 1' y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud. 21)

⁵ Mae'r dangosydd hwn yn cyfateb i 'Ddeiliant 2' y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud.23)

⁶ Dylid defnyddio'r diffiniadau o gyfrwng Cymraeg a dwyieithog a roddir yn 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (2007) at y pwrpas hwn

⁷ Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â 'Ddeiliant 4' o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud. 25)

⁸ Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â 'Ddeiliant 4' o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud. 25)

⁹ Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â 'Deiliant 4' o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud. 25)

16. Cyfanswm sydd wedi cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf) fel canran o'r rhai a gofrestrodd i wneud TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ddwy flynedd yn flaenorol¹⁰;
17. Cyfanswm sydd wedi cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (ail iaith) fel canran o'r rhai a gofrestrodd i wneud cwrs llawn a byr TGAU Cymraeg (ail iaith) ddwy flynedd yn flaenorol¹¹;
18. Nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg mewn Addysg Uwch;
19. Nifer y dysgwyr sy'n astudio modiwlau iaith Gymraeg fel rhan o gyrsiau Addysg Uwch;
20. Nifer o gofrestriadau ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion ar lefelau amrywiol;
21. Nifer y bobl sy'n dilyn cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg.

Blwch 2: Thema 'Galw' 2: Cyrhaeddiad:

1. Cyfran disgyblion Blwyddyn 2 a aseswyd mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 2;
2. Cyfran disgyblion Blwyddyn 2 a aseswyd mewn Datblygu'r Gymraeg sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 2;
3. Cyfran disgyblion Blwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg fel iaith gyntaf sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4;
4. Cyfran disgyblion Blwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg fel ail iaith sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4;
5. Cyfran disgyblion Blwyddyn 9 a aseswyd mewn Cymraeg fel iaith gyntaf sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5;
6. Cyfran disgyblion Blwyddyn 9 a aseswyd mewn Cymraeg fel ail iaith sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5;
7. Cyfran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sy'n ennill graddau A*-C;
8. Cyfran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (ail iaith) sy'n ennill

¹⁰ Mae'r dangosydd hwn yn cyfateb i 'Ddeiliant 5a' o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud. 26)

¹¹ Mae'r dangosydd hwn yn cyfateb i 'Ddeiliant 5b' o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud. 26)

graddau A*-C;

9. Cyfran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sydd hefyd yn cofrestru ar gyfer dau gymhwyster Level 1/2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg¹²;
10. Cyfran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sydd hefyd yn cofrestru ar gyfer pum cymhwyster Level 1/2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg¹³;
11. Cyfran y dysgwyr ôl-16 sy'n cwblhau cymwysterau iaith Gymraeg yn llwyddiannus;
12. Cyfran y cyfranogwyr mewn sefydliadau addysg bellach sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.
13. Cyfran y cyfranogwyr mewn dysgu'n seiliedig ar waith sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg;
14. Nifer y credydau a enillir gan gyfranogwyr Cymraeg i Oedolion fel cyfran o'r credydau sydd eu hangen i gyflawni nodau dysgu llawn¹⁴.

Blwch 3: Thema 'Galw' 3: Dilyniant:

1. Cyfran y disgyblion sy'n parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf mewn Cyfnodau Allweddol dilynol;
2. Cyfran y disgyblion sy'n parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn Cyfnodau Allweddol dilynol;
3. Cyfran y dysgwyr sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog cyn-16 i ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg;
4. Cyfran y cyfranogwyr Cymraeg i Oedolion sy'n datblygu i gyrsiau ar lefelau dilynol.

¹² Mae'r dangosydd hwn yn cyfateb i 'Ddeilliant 3a' o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud 24)

¹³ Mae'r dangosydd hwn yn cyfateb i 'Ddeilliant 3b' Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (tud 24)

¹⁴ Mae'r dangosydd hwn yn cydfynd ag un o bump 'dangosydd deilliannau dysgu' yn Canllawiau ar Ddata Cymraeg i Oedolion 2010/11

6 DULLIAU GWERTHUSO

- 6.1 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn eang ac yn gymhleth. Bydd ei heffaith ar y system addysg a hyfforddiant yn raddol, gyda'r newidiadau'n dod yn amlwg wrth i amser fynd yn ei flaen. Ni fydd rhai effeithiau (effeithiau'r galw yn fwyaf penodol) yn dod yn gwbl amlwg am nifer o flynyddoedd ac mae hyn yn golygu bod angen i'r fframwaith gwerthuso ddarparu ar gyfer asesiadau ffurfiannol o agweddau penodol ar y Strategaeth. Mae'r model rhesymeg sydd yn sylfaen i'r fframwaith yn ddefnyddiol yn hyn o beth am ei fod yn nodi'r camau canolraddol tuag at wireddu'r dylanwadau y mae'r Strategaeth yn ceisio eu creu. Bydd gwerthuso ffurfiannol hefyd yn allweddol i alluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i addasu gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni er mwyn cynyddu eu heffaith. Bydd angen i'r fframwaith gwerthuso hefyd baratoi ar gyfer adolygiadau crynodol o rai mentrau penodol.
- 6.2 Rhagwelir y bydd y rhaglen ymchwil a gaiff ei llywio gan y fframwaith gwerthuso, yn creu dealltwriaeth well o effeithiolrwydd dulliau gwahanol o ddatblygu a hyrwyddo addysg mewn a thrwy gyfrwng iaith lleiafrifol. Dylid ystyried y llenyddiaeth ryngwladol wrth ymgymryd â gwahanol elfennau o'r rhaglen gwerthuso, er mwyn i Gymru ddysgu gan a chyfrannu tuag at y gronfa o wybodaeth sydd yn ymwneud â datblygu ieithoedd lleiafrifol.
- 6.3 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o'r dulliau methodolegol a'r ffrydiau gwaith a fydd yn caniatáu asesiad gwerthusol o effeithiau, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Strategaeth. Bwriad y dulliau posibl hyn yw ychwanegu at unrhyw ddadansoddiad sydd yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses adrodd flynyddol, er y gallai elfen o'r gwaith gwerthuso fod yn sylfaen nodweddion thematig yn adroddiadau cynnydd blynyddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Adolygiadau Polisi

- 6.4 Mae gan y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ran allweddol i'w chwarae wrth ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisiâu addysg a hyfforddiant mwy eang yng Nghymru. Yn wir, oherwydd natur trawsbynciol addysg cyfrwng

Cymraeg, mae'n hanfodol fod y weledigaeth a'r egwyddorion sy'n tanategu'r Strategaeth wedi eu hintegreiddio o fewn i holl bolisiau addysg a hyfforddiant Llywodraeth Cymru.

- 6.5 Mae'n allweddol, felly, fod y fframwaith gwerthuso yn caniatáu asesiad o'r graddau y mae polisiau newydd Llywodraeth Cymru yn cydsynio â dyheadau'r Strategaeth ac a ydy ystyriaethau iaith a chyfrwng Cymraeg wedi eu prif-ffrydio o fewn rhaglenni addysg a hyfforddiant. Gwneir hyn trwy adolygiadau o ddatblygiadau polisi pob tair blynedd, sy'n cynnwys archwiliad o ddatganiadau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyfarwyddyd a roddir i ddarparwyr addysg a hyfforddiant. Ystyrir hefyd y rhan y mae Uned y Gymraeg mewn Addysg yn ei chwarae wrth gynghori cydweithwyr ar draws yr Adran Addysg a Sgiliau wrth iddynt ddatblygu polisiau penodol.

Adolygiadau Ardal

- 6.6 Elfen allweddol o'r rhaglen werthuso fydd rhaglen dreigl bedair blynedd o 'adolygiadau ardal', yn canolbwyntio ar awdurdodau lleol unigol neu glystyrau ohonynt. Er mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a pharatoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, mae trefniadau cymorth ysgolion yn esblygu ar hyn o bryd, ac mae'n debygol y bydd cydweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol yn dod yn nodwedd fwy amlwg mewn trefniadau yn y dyfodol. Yn ogystal, mae darparwyr nas cynhelir, Addysg Bellach a Chymraeg i Oedolion eisoes yn gweithredu ar draws ffiniau ardaloedd awdurdodau lleol a bydd angen ystyried y lefelau gofodol y mae 'marchnadoedd' ehangach ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg yn braenaru. Y cam cyntaf wrth drefnu rhaglen o adolygiadau ardal fydd i Lywodraeth Cymru bennu'r lefelau gofodol ar gyfer cynnal adolygiadau o'r fath.
- 6.7 Bydd yr adolygiadau ardal yn adeiladu ar y gwaith sydd i gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru¹⁵ drwy ychwanegu dimensiwn ansoddol i ddadansoddi data meintiol er mwyn rhoi asesiad mwy gwrthrychol a chytbwys o effeithiau'r Strategaeth ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yr adolygiadau'n

¹⁵ Yn benodol, Uned Safonau Ysgolion, AdAS, Is-adran Addysg Bellach ag Is-adran Busnes a Sgiliau o fewn AdAS

arwain at ddealltwriaeth well o'r heriau a wynebwr wrth ymateb i'r Strategaeth (yn cynnwys y rheiny y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth ymateb i agendâu awdurdodau lleol a'r rheiny mae'r gymuned addysg a hyfforddiant mwy eang yn eu hwynebu wrth ymateb i'r agenda rhanbarthol), yn galluogi cymariaethau rhwng y dulliau a ddefnyddir mewn ardaloedd gwahanol ac yn amlygu arfer da y gellir ei rannu. Bydd yr adolygiadau ardal yn cynnwys cyfuniad o ymchwil pen desg a gwaith maes.

6.8 Bydd elfen pen desg yr adolygiadau yn cynnwys archwilio ystod o ddogfennau, yn cynnwys:

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCAau) awdurdodau lleol a Chynlluniau Partneriaethau Plant a Phobol Ifanc ;
- Adroddiadau blynyddol ar gynnig a chymryd mantais o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn cwricwla lleol (fel sy'n ofynnol yn unol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009);
- Adroddiadau blynyddol ar barhad iaith o un cyfnod allweddol i un arall (o fewn CSCAau) ;
- Cynlluniau iaith Gymraeg ac Adroddiadau Hunan Asesiad Sefydliadau Addysg Bellach;
- Cynlluniau iaith Gymraeg ac Adroddiadau Hunan Asesiad Darparwyr Hyfforddiant yn Seiliedig ar Waith;
- Arolygiadau Estyn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynllunio ar lefel awdurdod lleol¹⁶;
- Adroddiadau perthnasol Estyn o arolygiadau darparwyr;
- Dadansoddiadau a gynhyrchir gan Uned Safonau Ysgolion ac Is-adran Addysg Bellach AdAS;
- Setiau data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR);
- Deunydd gwerthuso perthnasol arall (gweler isod).

6.9 Bydd y gwaith maes yn rhoi llais i randdeiliaid sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu'r Strategaeth. Byddai'n cynnwys trafodaethau gyda rhanddeiliaid

¹⁶ Nododd Dogfen Ymgynghori y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2009) er mwyn cryfhau'r 'ffocws ar wireddu amcanion y Strategaeth hon', byddai Estyn yn arolygu'r 'ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r cynllunio ar lefel awdurdodau lleol' (eitem 9.1, tud 47)

amrywiol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ganfuwyd yn y dogfennau a adolygwyd. Disgwylir i randdeiliaid o'r fath gynnwys:

- Timau Gwella Ysgolion awdurdodau lleol neu ranbarthol;
- Darparwyr y Blynyddoedd Cynnar, yn cynnwys cynrychiolwyr Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, Cymdeithas Gwarchod Plant a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru;
- Cyrff llywodraethol ysgolion a cholegau addysg bellach;
- Rhieni/gofalwyr;
- Staff ysgol;
- Colegau Addysg Bellach;
- Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith;
- Timau Gwasanaeth Ieuenctid;
- Sefydliadau iaith Gymraeg fel Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith a Chlybiau Ffermwyr Ifanc;
- Gyrfa Cymru;
- Canolfannau Cymraeg i Oedolion;
- Uned y Gymraeg Mewn Addysg o fewn Llywodraeth Cymru;
- Uned Safonau Ysgolion, AdAS, Is-adran Addysg Bellach ag Is-adran Busnes a Sgiliau o fewn AdAS
- Canghennau eraill yn yr Adran Addysg a Sgiliau, yn ogystal ag Adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Estyn;
- Dysgwyr.

6.10 Bydd angen i Lywodraeth Cymru drafod canfyddiadau adolygiadau ardal gydag aelodau rhwydweithiau dysgu lleol/Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Dylai'r deialog hwn wedyn arwain at ddatblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

6.11 Bydd y gwaith maes a wnaed yn ystod adolygiadau ardal hefyd yn rhoi cyfle i archwilio canfyddiadau rhanddeiliaid o faterion trosfwaol fel perthnasedd parhaus y Strategaeth, yr arweinyddiaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi a newidiadau o fewn cyd-destun y polisi sy'n effeithio ar eu gallu i ymateb i'r Strategaeth. Yn olaf, mae adolygiadau ardal yn darparu ffynhonnell werthfawr o

ddeunydd i lywio Adroddiadau Blynyddol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Astudiaethau Penodol

- 6.12 Bydd angen astudiaethau penodol i ddangos effaith rhai gweithgareddau a wnaed o dan nawdd y Strategaeth. Gall astudiaethau penodol, a wneir un ai fel astudiaethau arunig neu fel elfennau o drywyddau ymholi ehangach, fod yn angenrheidiol hefyd i ddatblygu dealltwriaeth well o faterion penodol neu i archwilio dilysrwydd rhywfaint o'r honiadau sy'n tanategu'r Strategaeth. Amlygodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid rai o'r meysydd o ddiddordeb/pryder penodol ac mae'r rhain wedi llywio datblygiad y fframwaith gwerthuso.
- 6.13 Bydd angen pennu'r dulliau i gael eu mabwysiadu wrth gynnal astudiaethau penodol fesul achos, yn dibynnu ar natur y cwestiynau ymchwil. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd sgôp ar gyfer defnyddio dulliau lled arbrofol i fynd i'r afael â chwestiynau penodol. Gallai un enghraifft gynnwys defnyddio 'dau ddadansoddiad wedi eu paru' i archwilio effeithiau perthynol dulliau gwahanol o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr.

Ymchwil Gweithredu wedi ei Hwyluso o fewn 'Grwpiau Gwerthuso/Ymchwil Ymarferwyr'

- 6.14 Mae'r *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* yn cyfeirio at swyddogaeth addysgwyr proffesiynol wrth wella ansawdd darpariaeth ddysgu. Gallai Grwpiau Gwerthuso/Ymchwil Ymarferwyr fod â swyddogaeth ddefnyddiol o safbwynt gwneud astudiaethau/meysydd ymchwil gweithredu penodol ar ran Llywodraeth Cymru. Yn wir, mae ffurfweddau fel Rhwydweithiau 14-19 yn fodd i ddod ag ymarferwyr ynghyd i weithio ar draws rhai ffiniau sectoraidd. Wedi dweud hyn, fodd bynnag, cydnabyddir y gall newidiadau yn nhrefniadau cymorth ysgolion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol rwystro gallu ymarferwyr i ymgysylltu mewn Grwpiau Gwerthuso/Ymchwil Ymarferwyr, yn arbennig yn y tymor byr.
- 6.15 Er mwyn i ymchwil weithredol ddarparu gwersi sy'n berthnasol ar raddfa eang a chreu modelau y gellir eu hefelychu, rydym yn argymhell bod Grwpiau

Gwerthuso/Ymchwil Ymarferwyr penodol yn cael eu cefnogi drwy ganolbwyntio ar faterion penodol gan hwyluswyr allanol, Sefydliadau Addysg Uwch o bosibl er mwyn ffocysu ar faterion penodol. Dylai Uned y Gymraeg mewn Addysg gytuno ar y materion y dylid mynd i'r afael â nhw a dylai hefyd gydlynw'r gwaith o rannu'r wybodaeth sydd yn dod i'r amlwg o ymchwil weithredol o'r math hwn.

Arolygon Dysgwyr

- 6.16 Prif 'fuddiolwyr' y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg fydd pobl ifanc ac mi fydd yn bwysig archwilio effeithiau'r Strategaeth arnynt. Mae mesur 'cyfranogiad', 'cyrhaeddiad' a 'datblygiad' yn ddangosyddion pellgyrhaeddol amlwg i'r perwyl hwn, ond mae angen dwysáu'r rhain gan wybodaeth fwy uniongyrchol am effaith y Strategaeth ar y system addysg a hyfforddiant a'r ffordd y caiff ei hamgyffred gan bobl ifanc.
- 6.17 Er mwyn cael gwybodaeth o'r fath, dylid cynnal arolygon cyfnodol o bobl ifanc, er mwyn archwilio materion megis:
- Agweddau tuag at yr iaith Gymraeg yn yr ysgol;
 - Agweddau tuag at yr iaith Gymraeg mewn bywyd yn gyffredinol;
 - Y graddau y mae pobl ifanc yn defnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn yr ysgol/sefydliadau Addysg Bellach ac yn y gymuned;
 - Canfyddiadau o werth addysg cyfrwng Gymraeg;
 - Canfyddiadau o atyniad mathau amrywiol o weithgareddau cyfrwng Gymraeg allgyrsiol/y tu allan i'r ysgol;
 - Canfyddiadau o ddeunydd dysgu cyfrwng Gymraeg;
 - Argaeledd strwythurau cymorth cyfrwng Gymraeg, yn cynnwys rhith-amgylcheddau dysgu, mentoriaid, cynghorwyr gyrfaoedd ac yn y blaen;
 - Y graddau y mae dysgwyr yn defnyddio strwythurau cymorth cyfrwng Gymraeg o'r fath.
- 6.18 Yn y gorffennol, archwiliodd Arolygon Llais Dysgwyr ganfyddiadau dysgwyr o'r cymorth Gymraeg/iaith Gymraeg' sy'n cael ei gynnig ac a yw'n well gan ddysgwyr 'ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg'. Mae cynnal arolygon pellach o Llais Dysgwyr yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a byddai astudiaethau o'r fath, pe byddent yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn rhoi gwybodaeth werthfawr o ran

asesu effaith y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg dros amser, fel y tystia barn dysgwyr.

- 6.19 Dylid defnyddio ‘Astudiaeth Carfan y Mileniwm’¹⁷ fel ffordd o archwilio profiadau a chanfyddiadau pobl ifanc o’r iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Yn wir, mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn rhoi’r fantais o ddarparu dimensiwn hydredol gyda charfan o bobl ifanc a fydd wedi dechrau eu taith addysgol cyn dyfodiad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- 6.20 Gan fod cyrch nesaf Astudiaeth Carfan y Mileniwm ar fin digwydd, dylid cymryd camau brys i adolygu data a ddarparwyd gan gyrchoedd blaenorol er mwyn asesu a yw’n darparu deunydd defnyddiol wrth werthuso’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Dylid cymryd camau hefyd i archwilio a ellid cynnwys llwybrau ymholi newydd yn ymwneud â’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i gyrch 2012 a chyrchoedd wedi hynny.
- 6.21 Mae ‘Astudiaeth Carfan Olympaidd’ arfaethedig y Deyrnas Unedig gyfan yn rhoi cyfle arbennig o gyffrous i olrhain agweddau ac ymddygiad rhieni plant a anwyd yn 2012, a’r plant eu hunain, wrth i’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg symud i’r cam gweithredu. O safbwynt Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae dadl gref iawn o blaid cynyddu meintiau sampl yng Nghymru, yn unol â’r hyn a wnaed ar gyfer Astudiaeth Carfan y Mileniwm.

Arolygon Poblogaeth

- 6.22 Mae *Dogfen Ymgynghori Iaith Fyw: Iaith Byw* (2010) yn cydnabod ‘bod angen cynnal arolygon rheolaidd o ddefnydd iaith, a fydd yn adeiladu ar y data a gafwyd o’r Cyfrifiad ar allu ieithyddol’. Mae hefyd yn sôn am yr angen am ‘arolygon o agweddau er mwyn monitro agweddau tuag at y Gymraeg a’i defnydd’ (tud 37). Mae arolygon o’r fath yn amlwg yn rhoi cyfle i archwilio effaith y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, ynghyd â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, ar agweddau tuag at yr iaith Gymraeg, tuag at addysg cyfrwng Cymraeg

¹⁷ Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn brosiect ymchwil yn dilyn bywydau tua 19,000 o blant a anwyd yn y DU yn 2000/1 (2,799 yng Nghymru). Mae’r astudiaeth wedi olrhain plant y Mileniwm trwy flynyddoedd cynnar eu plentynodod a’r bwriad yw eu dilyn nes eu bod yn oedolion. Hyd yn hyn, mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm wedi cynnwys pedwar arolwg rhieni a phlant ‘carfan y mileniwm – yn naw mis, tair, pump a saith oed. Mae cyrch nesaf yr astudiaeth wedi ei gynllunio ar gyfer 2012, wrth i ‘garfan y mileniwm’ symud o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd.

a thuag at ddysgu Cymraeg. Wrth gydnabod defnydd posibl arolygon o'r fath, rydym yn cydnabod, fodd bynnag, eu cyfyngiadau o ran gallu cyfrannu at unrhyw newidiadau i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

- 6.23 Gallai arolygon o'r fath gynnwys cwestiynau yn ymwneud ag:
- Canfyddiadau ynghylch argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg;
 - Canfyddiadau ynghylch argaeledd ac ansawdd cyfleoedd i ddysgu Cymraeg;
 - Effaith addysg cyfrwng Cymraeg ar y defnydd cyffredinol o'r iaith yn y gymuned
 - Canfyddiadau ynghylch gwerth y Gymraeg a'i gyfraniad i ansawdd bywyd unigolion.

Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg Ymarferwyr

- 6.24 Mae llawer mwy i'w wneud o ran deall proffil sgiliau iaith Gymraeg ac anghenion hyfforddiant cysylltiedig y gweithlu addysg a hyfforddiant. Cyfeiriodd yr Arolwg o'r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion (2011) at yr angen am 'gyfres o offer asesu syml i alluogi lefelau iaith ymarferwyr sy'n cymryd rhan i gael eu mesur ... yn gysylltiedig â lefelau Cymraeg i Oedolion' a'i 'deilwra i adlewyrchu iaith sy'n briodol ar gyfer addysgu'.

Adborth gan Ymarferwyr

- 6.25 Mae angen ystyried y ffordd y gellid cael barn ymarferwyr ar faterion penodol. Gallai'r enghreifftiau gynnwys eu barn am:
- Werth sgiliau iaith Gymraeg i ymarferwyr addysgu/hyfforddi ac yn yr economi ehangach;
 - Defnyddioldeb yr hyfforddiant iaith/methodoleg Gymraeg a dderbynnir – pa wahaniaeth y mae'n ei wneud i'w harferion addysgu?
 - Perthnasedd, ansawdd a defnydd o adnoddau addysgu a dysgu a gomisiynir o dan nawdd y Strategaeth?
 - Bylchau yn argaeledd adnoddau addysgu a dysgu iaith Gymraeg – er gwaethaf y gwaith a wnaed gan baneli adnoddau LICC a CBAC;
 - Anawsterau ymarferol a wynebwr wrth wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth neu'r gweithle.

Defnydd o Gronfeydd Data Presennol

- 6.26 Mae cronfeydd data presennol fel CYBLD, Cyfnod Dysgu Gydol Oes Cymru a HESA yn ffynonellau data a allai fod yn werthfawr iawn, yn arbennig mewn perthynas ag effeithiau mwy hirdymor y Strategaeth ar y system addysg a hyfforddiant a'r dysgwyr eu hunain. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, bod y data sydd ar gael o systemau LLWR a CYBLD yn gyfyngedig a byddant yn anochel wedi eu dyddio, ac mae amheuan ynghylch eu cywirdeb hefyd. Er y byddant yn gyffredinol ddigonol i ddangos tueddiadau dros amser, ni fyddant yn rhoi darlun diweddar o'r ddarpariaeth ac, ar adegau, gall fod angen ychwanegu gwybodaeth o ffynonellau eraill atynt.
- 6.27 Rydym yn cydnabod bod rhai o'r mesurau a'r dangosyddion galw yr ydym yn eu hawgrymu yn dibynnu ar ddata nad yw'n gwbl ddibynadwy efallai. Bydd angen nodi ble mae gwendidau o'r fath wrth ddefnyddio'r fframwaith gwerthuso; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu'n barhaus i wella ansawdd, dilysrwydd a'r defnydd o ystadegau addysgol a gesglir. Mae hyn yn golygu y gall dulliau presennol o gasglu data esblygu¹⁸ a bydd angen ystyried goblygiadau unrhyw newidiadau a wneir ar gymhareb data a gesglir ar wahanol adegau.

Arolygiadau Estyn

- 6.28 Bydd adroddiadau arolygiadau Estyn yn darparu ffynhonnell wybodaeth bwysig er mwyn bwydo i mewn i'r adolygiadau ardal a drafodir uchod. Fodd bynnag, ceir cyfle hefyd i ddarparu ar gyfer agweddau ehangach y fframwaith gwerthuso oddi mewn i gylch gwaith blynyddol Estyn. Enghraifft o hyn yw cais y Gweinidog yn Llythyr Cylch Gwaith 2011/12 bod Estyn yn adrodd 'ar elfen yr iaith Gymraeg o'r Cyfnod Sylfaen' fel rhan o 'werthusiad ehangach y Cyfnod Sylfaen' gan AdAS. Mae Llythyr Cylch Gwaith 2011/12 Estyn yn nodi ymhellach y bydd adolygiad o 'safonau Gymraeg ail iaith ... CA2' yn cael ei gynnal o 2012/13 ymlaen.

¹⁸ Er enghraifft, mae cynnig ar y gweill i ddefnyddio Cyrff Dyfarnu fel unig ffynhonnell data ynglŷn â chymwysterau a enillwyd gan ddysgwyr. Ar hyn o bryd, cesglir data ynglŷn â chymwysterau a enillwyd gan ddysgwyr mewn colegau addysg bellach neu sefydliadau dysgu'n seiliedig ar waith gan y darparwyr yn hytrach na'r cyrff dyfarnu

Defnyddio Astudiaethau Gwerthuso ac Ymchwil Eraill

6.29 Mae Tabl 4 isod yn nodi atodlen o astudiaethau gwerthuso ac ymchwil a allai fod yn berthnasol i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn bwriadu eu cynnal dros y blynyddoedd nesaf. Er nad yw hon yn rhestr ddiffiniol o bell ffordd, mae'n ddefnyddiol i nodi'r sgôp ar gyfer synergedd posibl rhwng y gwaith sydd i'w wneud yn gwerthuso Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac astudiaethau eraill.

Tabl 4: Astudiaethau Gwerthuso ac Ymchwil sydd Ar y Gweill

MAES POLISI	AMSERIAD	I'W REOLI GAN
Arolygiadau Ardal	Ionawr 2011	Estyn
Cyfrifiad ar gyfer y Gymraeg	Mawrth 2011	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen	2011-2014	AAaS, Llywodraeth Cymru
Cymraeg i Oedolion – Ymchwil ar sut y gellid gwella dulliau o drosglwyddo iaith i oedolion	2010-2012	AAaS, Llywodraeth Cymru
DPP – Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol	2011	AAaS, Llywodraeth Cymru
Ymchwil i gasglu gwybodaeth fanwl ynglŷn â threfniadau darparu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4	2011	AAaS, Llywodraeth Cymru
Rhesymau y tu ôl i ddirywiad y niferoedd sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch – dylanwadau ar eu dewis o bynciau i'w hastudio	2011	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad, Llywodraeth Cymru
Y ffordd y mae cynlluniau iaith yn effeithio ar ddwyieithrwydd mewn AB	2011	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad, Llywodraeth Cymru
Asesiadau safonedig PISA o sgiliau darllen plant 15 oed	2012	OECD
Adroddiad ar sefyllfa'r iaith Gymraeg	Rhagfyr 2015	Comisiynydd y Gymraeg
Arolygon lefelau iaith a'r defnydd o iaith	I'w bennu	AAaS, Llywodraeth Cymru
Bydd Archwiliad Strategol Sgiliau Cenedlaethol 2011 (fydd yn defnyddio data Arolwg Sgiliau Cyflogwyr) yn cynnwys asesiad o'r galw am sgiliau iaith Gymraeg o fewn gwahanol sectorau, ac o bosib, ardaloedd daearyddol. Disgwylir i'r archwiliad ddylanwadu ar bolisïau Cynghorau Sgiliau Sector	2011	AAaS, Llywodraeth Cymru
Ymarferiad casglu arfer da mewn perthynas â gweithrediad Cynlluniau iaith Gymraeg y Cynghorau Sgiliau Sector	Rhagfyr 2011	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Ymchwil i'r modd y mae sefydliadau addysg bellach yn annog dysgwyr i barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o brosiect Dewis Da)	Rhagfyr 2011	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Adolygiad o'r dystiolaeth sy'n tanategu'r Strategaeth iaith Gymraeg. Golyga hyn adolygu adroddiadau ymchwil, ystadegau ac adroddiadau gwerthuso er mwyn adnabod tystiolaeth fydd yn dylanwadu ar y Strategaeth iaith Gymraeg gorffenedig, ar flaenoriaethu gweithgareddau ag	Gorffennaf 2011 – Hydref 2011	AAaS, Llywodraeth Cymru

ar bolisiau ariannu. Bydd yr adolygiad hefyd yn cyflwyno cynigion ynglŷn â sut y dylid gwerthuso'r Strategaeth Iaith Gymraeg. Gwneir rhan fwyaf o'r gwaith yma gan swyddogion Llywodraeth Cymru, er y bydd hyn yn cael ei adolygu gan arbenigwyr allanol.		
Comisiynir ymchwil i ddulliau trosglwyddo'r iaith Gymraeg ar lawr dosbarth, dan nawdd y Gronfa Ymchwil Gymdeithasol Syniadau Newydd	Hydref 2011	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad, Llywodraeth Cymru
Gronfa Ddata Arholiadau Cymru i gynnwys cofnodion o holl gymwysterau cymeradwy a'u cyflawnwyd gan ddisgyblion ysgolion Cymru.	Blynnyddol	AAaS, Llywodraeth Cymru
Astudiaeth i werthuso effaith y newidiadau a wnaed i drefniadau rheoli perfformiad o fewn addysg a hyfforddiant, safonau proffesiynol, DPP a chymunedau dysgu proffesiynol.	2011-2013	AAaS, Llywodraeth Cymru
Y Bumed Don o Astudiaeth Carfan y Mileniwm': mae cofnod dealltwriaeth mewn lle i dalu am hybu'r arolwg a wneir fel rhan o'r bumed don o Astudiaeth Carfan y Mileniwm, dros gyfnod o bedair blynedd.	2011-2014	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad, Llywodraeth Cymru

7. DULLIAU METHODOLEGOL GWERTHUSO

7.1 Mae Tabl 5 isod yn nodi pa rai o'r dulliau methodolegol a drafodir uchod y dylid eu cymhwyso wrth fynd i'r afael ag elfennau penodol o'r fframwaith gwerthuso.

Tabl 5: Dulliau i'w Defnyddio wrth Fynd i'r Afael â Chwestiynau Allweddol Cyflenwyr y Fframwaith Gwerthuso

	Adolygiadau Polisi	Adolygiadau Ardal	Astudiaethau Penodol	Ymchwil Weithredol	Arolygon Dysgwyr	Arolygon Poblogaeth	Asesiadau Sgiliau Ymarferwyr	Arolygon Ymarferwyr	Defnydd o Astudiaethau eraill	Adroddiadau Arolygiadau a Chylch	Defnydd o Gronfeydd Data
CWESTIYNAU GWEITHGAREDD A CHYNNYRCH											
Cynllunio Darpariaeth a Threfniadau Cymorth											
I ba raddau y mae LIC yn rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad strategol clir y mae rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn gallu ymateb iddo?	✓	✓	✓								
Pa mor ganolog yw'r ystyriaeth o'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu polisi addysg ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol?	✓	✓	✓								
Pa mor effeithiol y mae partneriaethau dysgu lleol/ranbarthol yn asesu'r galw am ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg a'i archwilio?		✓									

	Adolygiadau Polisi	Adolygiadau Ardal	Astudiaethau Penodol	Ymchwil Weithredol	Arolygon Dysgwyr	Arolygon Poblogaeth	Asesiadau Sgiliau Ymarferwyr	Arolygon Ymarferwyr	Defnydd o Astudiaethau eraill	Adroddiadau Arolygiadau a Chylich	Defnydd o Gronfeydd Data
Pa mor effeithiol y mae partneriaethau dysgu yn nodi blaenoriaethau lleol/rhanbarthol ar gyfer datblygu darpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, yn cynnwys llwybrau galwedigaethol lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg fwyaf?		✓									
Pa mor effeithiol y mae partneriaethau dysgu lleol/rhanbarthol yn cydweithio i gynllunio addysg iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg?		✓									
A yw'n ymarferol datblygu continwmm iaith i gynorthwyo'r gwaith o asesu sgiliau dysgwyr?			✓								
Pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer blaenoriaethu datblygiad adnoddau a chymwysterau iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg newydd?		✓	✓								
I ba raddau y mae'r defnydd posibl o dechnoleg i hyrwyddo a chyflenwi darpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried?		✓									
<i>Datblygiad Gweithlu Ymarferwyr Dysgu</i>											
Beth ddylai'r safon ieithyddol ofynnol fod ar gyfer y rheiny sy'n dymuno gweithio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg?			✓								
Pa mor dda yw'r ddealltwriaeth o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol?			✓				✓			✓	
Faint o bwysigrwydd y mae ymarferwyr a'r rheiny sy'n dymuno bod yn ymarferwyr yn ei roi i sgiliau iaith Gymraeg?							✓	✓		✓	
A oes strwythur hyfforddiant mewn bodolaeth ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol?		✓	✓					✓			
I ba raddau y mae elfennau sgiliau iaith Gymraeg/addysgeg yn rhan graidd o gyrsiau HCA, a rhaglenni Sefydlu, DPC a DPP		✓	✓	✓				✓			
<i>Creu Amgylchedd Cefnogol</i>											
Pa mor effeithiol y mae buddion sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hyrwyddo?		✓			✓	✓				✓	
Pa mor gywir, cynhwysfawr a chytbwys yw'r wybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei rhoi i bobl ifanc a'u rhieni?		✓			✓	✓				✓	
Pa mor hygyrch yw'r cyfleoedd dysgu anffurfiol/heb fod yn ffurfiol ar gyfer pobl ifanc a dysgwyr sy'n oedolion?		✓			✓	✓					

	Adolygiadau Polisi	Adolygiadau Ardal	Astudiaethau Penodol	Ymchwil Weithredol	Arolygon Dysgwyr	Arolygon Poblogaeth	Asesiadau Sgiliau Ymarferwyr	Arolygon Ymarferwyr	Defnydd o Astudiaethau eraill	Adroddiadau Arolygiadau a Chylich	Defnydd o Gronfeydd Data
CWESTIYNAU CANLYNIAD A DYLANWAD											
Cyffredinol											
I ba raddau y mae ystyriaethau cyfrwng Cymraeg wedi eu hintegreiddio o fewn polisïau ehangach addysg a hyfforddiant?	✓	✓	✓								
Sut mae patrwm darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi newid dros amser?		✓								✓	
Sut mae patrwm darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg wedi newid dros amser?		✓								✓	
Sut mae patrwm darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi newid dros amser?		✓								✓	
Sut mae patrwm darpariaeth anstatudol cyfrwng Cymraeg wedi newid dros amser?		✓								✓	
Sut mae patrwm darpariaeth CiO wedi newid dros amser?		✓								✓	
I ba raddau y mae cynlluniau partneriaethau dysgu lleol/rhanbarthol yn ceisio ymestyn argaeledd cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg mewn gwirionedd?		✓									
Pa mor effeithiol y mae cynlluniau ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg yn cael eu gweithredu mewn gwirionedd?		✓									
Pa fodelau cyflenwi sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian?		✓									
Cynllunio Darpariaeth a Threfniadau Cymorth											
I ba raddau y mae cynlluniau partneriaethau lleol/rhanbarthol go iawn yn ceisio ymestyn y ddarpariaeth iaith Gymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg?		✓									
I ba raddau y mae cynlluniau ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth addysg iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg yn cael eu gweithredu yn ymarferol?		✓									
A oes digon o adnoddau o'r ansawdd cywir ar gael i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg ac addysgu a dysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg?					✓		✓				
I ba raddau y mae adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg yn cael eu defnyddio gan ymarferwyr a dysgwyr			✓	✓				✓			
Datblygiad Gweithlu Ymarferwyr Dysgu											
I ba raddau y mae'r rheiny sy'n gwneud cyrsiau HCA a rhaglenni Sefydlu a DPC yn datblygu eu sgiliau addysgeg iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg?		✓	✓					✓			

	Adolygiadau Polisi	Adolygiadau Ardal	Astudiaethau Penodol	Ymchwil Weithredol	Arolygon Dysgwyr	Arolygon Poblogaeth	Asesiadau Sgiliau Ymarferwyr	Arolygon Ymarferwyr	Defnydd o Astudiaethau eraill	Adroddiadau Arolygiadau a Chylich	Defnydd o Gronfeydd Data
I ba raddau y mae ymarferwyr presennol yn cymryd rhan mewn DPP sydd wedi ei gynllunio i ddatblygu eu sgiliau addysgu iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg?		✓	✓					✓			
Beth yw'r dulliau mwyaf cost effeithiol o ddatblygu sgiliau addysgu iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg ymarferwyr h.y. sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian?											
I ba raddau y mae'r gweithlu ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau iaith Gymraeg ac addysgeg angenrheidiol?							✓	✓		✓	
Creu Amgylchedd Cefnogol											
Pa mor hyderus yw pobl ifanc a'u rhieni ynglŷn â dewis addysg cyfrwng Cymraeg?					✓	✓					
Pa mor hyderus y mae dysgwyr yn teimlo am ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth?					✓	✓					
I ba raddau y mae cymdeithas yn cefnogi pobl yn ehangach i ddysgu Cymraeg?					✓	✓					
HONIADAU/FFACTORAU ALLANOL I GAEL EU PROFI											
Pa dystiolaeth sydd ar gael bod datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn cael dylanwad cadarnhaol ar sgiliau gwybyddol a chyfleoedd bywyd unigolion?			✓						✓		✓
Pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol o safbwynt datblygu sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr?			✓	✓							
Pa gyfran o'u haddysg y mae angen i bobl ifanc ei gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn bod yn rhugl?			✓	✓							✓
Sut mae costau addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn cymharu â chostau addysg cyfrwng Saesneg uniaith a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r buddion i ddysgwyr y naill a'r llall?			✓								
Pa ddulliau o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr sydd fwyaf effeithiol?			✓	✓			✓	✓			
I ba raddau y mae ymarferwyr yn gallu gwneud defnydd da o'u sgiliau iaith Gymraeg?			✓				✓				
A oes sgôp ar gyfer mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd os yw rhwydweithiau dysgu lleol yn cydweithio dros ardaloedd daearyddol ehangach?		✓	✓								

7.2 Cronfeydd data fel CYBLD, LLWR a HESA fydd prif ffynhonnell gwybodaeth am 'y galw' yn ymwneud ag ymgymeriad ac effaith cyfleoedd dysgu iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar ddysgwyr.

8. GWEITHREDU'R FFRAMWAITH GWERTHUSO

8.1 Wrth weithredu'r rhaglen werthuso, bydd angen ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i reoli'r rhaglen werthuso ac i wneud elfennau penodol o'r gwaith. Mae'n anodd rhoi syniad ar hyn o bryd beth fydd cost cynnal meysydd unigol o'r gwerthusiad, ond mae Tabl 6 isod yn nodi rhai o'r goblygiadau o ran adnoddau sy'n ymwneud â chynnal elfennau gwahanol o'r gweithgaredd gwerthuso y byddai angen eu hystyried.

Tabl 6: Goblygiadau Elfennau o'r Gweithgaredd yn ymwneud ag Adnoddau

Elfen o'r Gwerthusiad	Cynnyrch	Adnoddau Gofynnol
Adolygiadau Polisi	Adroddiadau ar y graddau y mae ystyriaethau cyfrwng Cymraeg wedi eu hintegreiddio o fewn polisïau ehangach addysg a hyfforddiant	Tua 20 o ddiwrnodau ymchwiliwr pob tair blynedd
Adolygiadau Ardal	- Adroddiadau ar y datblygiadau mewn meysydd gofodol penodol; - Adroddiadau arunigol yn canolbwyntio ar themâu penodol e.e. 'effeithiolrwydd partneriaethau dysgu lleol/rhanbarthol yn asesu'r galw am ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg'	Tua 120 o ddiwrnodau ymchwiliwr y flwyddyn yn seiliedig ar gylch adolygu tair blynedd
Astudiaethau Penodol	Adroddiadau arunigol ar themâu penodol e.e. 'astudiaeth gymharol o effeithiolrwydd dulliau gwahanol o gaffael iaith ymhlith grwpiau oedran penodol' a 'faint o rwystr i gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r diffygion yn sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr?'	Bydd angen eu pennu fesul achos
Ymchwil Weithredol wedi ei Hwyluso	Adroddiadau arunigol ar themâu penodol e.e. 'sut y gellir sicrhau datblygiad ieithyddol o un Cyfnod Allweddol i'r llall?' a 'beth ellir ei wneud i annog a chefnogi ymarferwyr i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg mewn lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen?'	Bydd angen eu pennu fesul achos, ond bydd angen darparu ar gyfer: - amser hwyluswyr - costau cyflenwi - costau teithio - costau cynhaliath/llety
Arolygon Dysgwyr	Setiau data'n ymwneud â chwestiynau perthnasol yn cael eu cynnwys mewn arolygon dysgwyr e.e. Arolygon Llais Dysgwyr, Astudiaeth Carfan y Mileniwm ac Astudiaeth y Garfan Olympaidd	Bydd angen darparu ar gyfer: - cynnwys cwestiynau ychwanegol mewn arolygon - hybu arolygon presennol - dadansoddi setiau data ac adrodd

Arolygon Poblogaeth	Setiau data'n ymwneud â chwestiynau perthnasol yn cael eu cynnwys mewn arolygon poblogaeth e.e. Arolwg posibl Defnydd o laith	Bydd angen darparu ar gyfer: - cynnwys cwestiynau ychwanegol mewn arolygon - dadansoddi setiau data ac adrodd
Arolygon Ymarferwyr	Setiau Data	Bydd angen darparu ar gyfer: - dylunio arolygon - cynnal arolygon, ar-lein o bosibl - dadansoddi setiau data ac adrodd
Dadansoddi Cronfeydd Data Presennol	Adroddiadau ar faterion 'galw' penodol	Bydd angen eu pennu fesul achos, yn dibynnu ar ddyfnder y dadansoddiad sydd eisoes yn cael ei gynnal gan yr Uned Safonau Ysgolion

- 8.2 Wrth gynllunio'r rhaglen werthuso, bydd angen ystyried goblygiadau cynnal elfennau unigol o'r ymchwil o ran adnoddau. Yn wir, oherwydd natur arloesol rhai elfennau o'r ymchwil a gynnigir, dylai Llywodraeth Cymru ystyried peilota dulliau penodol cyn eu defnyddio'n fwy eang, er mwyn isafu'r risg o fuddsoddi mewn ymchwil anymarferol neu aneffeithiol.
- 8.3 Dylid hefyd ystyried y gallu sy'n bodoli o fewn Llywodraeth Cymru a'r system addysg a hyfforddiant ehangach i rannu, dysgu a gweithredu ar ganfyddiadau astudiaethau ymchwil.
- 8.4 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynrychioli carreg sylfaen allweddol yn y fframwaith polisi a deddfwriaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ac adfywio'r iaith Gymraeg. I gydnabod ei hamlygrwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu adroddiad blynyddol yn nodi'r datblygiad a wnaed o safbwynt gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd elfennau'r gwerthusiad a ddisgrifiwyd yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r trefniadau adrodd hyn a byddant yn rhoi gwybodaeth i'w bwydo i mewn i adroddiadau blynyddol.
- 8.5 Yn ogystal â bwydo i mewn i adroddiadau blynyddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, dylid ystyried lledaenu canfyddiadau astudiaeth werthuso fanylach, trwy wefan benodedig Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg o bosibl. Gallai adnodd o'r fath hefyd fod yn gyfrwng ar gyfer hysbysu darparwyr dysgu ynghylch y datblygiadau, ar gyfer rhannu arfer da ac, yn wir, ar gyfer

gweithgareddau gwerthuso fel arolygon ymarferwyr.

- 8.6 Yn olaf, bydd angen i'r fframwaith gwerthuso gael ei adolygu o bryd i'w gilydd yng ngoleuni profiad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyflwyno her adeiladol.

ATODIAD 1: CEFNDIR EHANGACH POLISI ADDYSG A SGILIAU

Mae *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (2008)* Llywodraeth Cymru yn gosod gofynion penodol ar 'leoliadau ac ysgolion lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg plant yn raddol' (tud 12) trwy Faes Dysgu Datblygu'r Gymraeg. Mae'r ddogfen, sy'n cefnogi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith fesul Cam, yn amlinellu'r meysydd dysgu statudol ac yn nodi'r mathau o brofiadau dysgu y dylai plant 3 i 7 oed gael mynediad iddynt er mwyn datblygu eu sgiliau llefareddd, darllen ac ysgrifennu. O'r flwyddyn ysgol 2011/12 ymlaen, mi fydd yn ofynnol i ysgolion cyfrwng Gymraeg asesu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu disgyblion (yn y Gymraeg) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer y Gymraeg yn cael ei gyflwyno fesul cam rhwng Awst 2008 ac Awst 2011. Mae *Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru (2008)* yn amlinellu'r llwybrau datblygiad a'r rhaglenni astudiaeth ar draws Cyfnod Allweddol 2 i 4 (yn cynnwys Llwybrau Dysgu 14-19) i wella sgiliau darllen, llefareddd ac ysgrifennu yn y Gymraeg, fel iaith gyntaf ac ail iaith. Disgwylir i'r disgyblion 'ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafaelwyd' (tud 15) yn ystod Cyfnodau Allweddol olynol ac, er 2010, mae cyrhaeddiad pob disgybl yn y Gymraeg, fel iaith gyntaf neu ail iaith, wedi cael ei asesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sydd yn tanlinellu'r pwyslais ar bwysigrwydd yr iaith. Yn wir, gwnaethpwyd buddsoddiad helaeth er mwyn sicrhau fod asesiadau o lefelau iaith disgyblion yn gywir, trwy ddefnyddio unigolion allanol i gymedroli asesiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 3 a chymedroli asesiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 2 ar sail clystyrau.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4, disgwylir i'r disgyblion ddatblygu i allu 'cyfathrebu yn effeithiol a hyderus' (tud 11) a disgwylir i fyfyrwyr y Gymraeg fel iaith gyntaf allu 'darllen yn rhugl er mwynhad ac er mwyn darganfod ystyr' (tud 11), tra bo disgwyl i'r rheiny sy'n astudio'r Gymraeg Ail iaith ddarllen 'testunau mwyfwy heriol a symbylol, gan gynnwys deunydd gwreiddiol, sy'n meithrin eu diddordeb a'u brwdfrydedd' (tud 35). Mae Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru yn disgrifio'r profiadau dysgu y dylai disgyblion eu cael er mwyn datblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg, yn cynnwys, er enghraifft, y defnydd cywir o ferfau, arddodiaid a threigladau a mathau amrywiol o gystrawen Gymraeg.

Mae polisi Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru, yn cynnwys *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, yn cyflwyno her arbennig i ysgolion uwchradd a Sefydliadau Addysg Bellach wrth geisio ymestyn lled y pynciau sy'n cael eu cynnig tra hefyd yn cynnal neu'n ymestyn dewis ieithyddol hefyd. Yn unol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol greu adroddiadau blynyddol sy'n nodi'r 'cyrsiau astudiaeth sy'n cael eu cynnwys mewn cwricwla lleol ... a oedd i gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg' yn ogystal â 'faint o ddisgyblion a ddewisodd wneud cyrsiau o'r fath' (cymal 5.4, tud 3/4).

Mae *Trawsnewid – Y Siwrnai: Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (2009)* yn cynnwys yr angen i ddangos y canlynol ymysg y 'meini prawf i'w defnyddio gan Bartneriaethau Dysgu wrth ddatblygu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau i drawsnewid cyflwyno addysg a hyfforddiant [ôl-16] ymhellach':

- Bod y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg sydd ar gael wedi'i chynyddu a'i hymestyn drwy ad-drefnu rhwydweithiau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol, neu ar draws ffiniau awdurdodau lleol lle y bo'n briodol;
- Llwybrau datblygu ac opsiynau ôl-16-18 clir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn darpariaeth addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a chweched dosbarth ysgolion, fel y bo'n briodol;
- Gwelliannau yn nifer a'r amrywiaeth o opsiynau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan sefydliad a'r Bartneriaeth, fel y bo'n briodol;
- Yr effaith gadarnhaol a gaiff y cynnig o ran yr amrywiaeth ac ansawdd y cyfleoedd cyfrwng Gymraeg sydd ar gael i ddysgwyr (tud 25).

Mae angen ystyried polisiâu Llwybrau Dysgu a Thrawsnewid Llywodraeth Cymru ynghyd â'r gofynion y mae *Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2007)* yn eu rhoi ar awdurdodau lleol i ystyried dewis rhieni o addysg cyfrwng Gymraeg wrth baru cyflenwad lleoedd ysgol â nifer y disgyblion. Mae *Cylchlythyr Cynigion Trefniadaeth Ysgolion 021/2009* Llywodraeth Cymru hefyd yn pwysleisio'r angen i ystyried ffactorau'n ymwneud â'r laith Gymraeg wrth ddwyn cynigion i newid patrwm darpariaeth ysgol ymlaen, ac mewn perthynas â darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen, mae'r ddogfen yn datgan y dylai awdurdodau lleol 'geisio

cyfleoedd i gynnal neu gynyddu hygyrchedd, cynhwysedd a chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg' ac i 'gynyddu niferoedd plant dan bump oed sy'n dod i gysylltiad digonol â'r Gymraeg i'w galluogi i wneud dewisiadau hyderus i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg' (tud 14).

Erbyn mis Rhagfyr 2011, bydd gofyn i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WiESP) yn lle'r Cynlluniau Addysg Gymraeg y mae wedi bod yn ofynnol arnynt eu creu dros y blynyddoedd diweddar. Mae canllawiau drafft yn dangos y bydd 'WiESPs yn rhoi ffordd i Lywodraeth Cymru fonitro'r dull y mae awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg trwy:

- sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg wrth wraidd datblygiadau polisi;
- ymestyn y ddarpariaeth lle nodir angen ar sail cynllunio gwell;
- ad-drefnu'r gwasanaeth cymorth trwy symud oddi wrth swyddogaethau traddodiadol *athrawon bro*, a thuag at wasanaeth hyfforddi a mentora newydd;
- sicrhau cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg ar sail consortia yn y dyfodol agos;
- gwella safonau ac ymestyn y defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc; ac
- arddangos y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau penodol yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' (tud1)

Mae'r canllawiau'n awgrymu'n gryf bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol wneud mwy nag ymateb i'r 'galw am addysg cyfrwng Cymraeg' yn unig, ond yn hytrach i weithio'n rhagweithiol i helpu ysgogi galw o'r fath trwy gynyddu cyflenwad darpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog hygyrch, o ansawdd uchel. Yn ei hanfod, mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd twf ym maes addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn deillio o argaeledd cyfleoedd yn hytrach na thwf digymell mewn galw ym maes addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog.

Mae Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru (2009) yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn 'monitro'r modd y mae darparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran gweithio mewn partneriaeth i sicrhau cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg o dan agenda Llwybrau Dysgu 14-19, a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg' (tud. 27). Yn wir, mae 'dysgu cyfrwng

Cymraeg' yn un o ddau 'faes ffocws penodol' o fewn cyflwyniadau hunan asesiad darparwyr yn 2011/12, ochr yn ochr â 'sgiliau sylfaenol'.

Mae'n drawiadol bod yr 'iaith Gymraeg' yn agwedd benodol ar y dangosydd 'Safonau' yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn a ddaeth i rym ym mis Medi 2010 a bod 'darpariaeth iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymraeg' yn rhan o'r dangosydd 'Profiadau Dysgu'. Mae canllawiau ar weithredu'r Fframwaith yn cyfeirio at ddefnyddio data cyrhaeddiad a datblygiad disgyblion i asesu perfformiad ysgolion yn erbyn y dangosydd 'Safonau'. Yn achos Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, mae canllawiau Estyn yn dangos bod disgwyl i arolygwyr 'roi sylwadau ar gyfran y dysgwyr sy'n ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n briodol' (*Arweiniad ar gyfer Arolygu Sefydliadau Addysg Bellach o Fedi 2010*, tud 18). Yn ogystal ag edrych ar ddata cyrhaeddiad a datblygiad dysgwyr wrth asesu perfformiad Canolfannau Cymraeg i Oedolion, bydd yr arolygwyr hefyd yn ystyried cyfraddau cadw a phresenoldeb dysgwyr.

O ran dangosyddion 'Profiadau Dysgu', mae arweiniad Estyn yn amlygu'r angen i asesu a yw ysgolion yn rhoi digon o amser i addysgu'r Gymraeg iaith Gyntaf ac fel Ail iaith ac a yw ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn rhoi'r 'ehangder cyfleoedd i ddisgyblion astudio [pynciau eraill] trwy gyfrwng y Gymraeg' ac a oes 'dilyniant a pharhad rhwng y cyfnodau allweddol' a'r 'cyfle i barhau i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog' (*Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion Uwchradd o Fedi 2010*, tud 24). Mae'r arweiniad ar gyfer Arolygu Sefydliadau Addysg Bellach yn nodi y bydd Estyn yn 'arfarnu pa mor dda y mae'r coleg yn bodloni anghenion dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ychwanegol at ymestyn medrau Cymraeg dysgwyr nad ydynt wedi astudio fawr o Gymraeg' (tud 23). Bydd arolygwyr darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (yn cynnwys darparwyr Prentisiaethau) yn ystyried y graddau y bydd darparwyr yn cydweithredu er mwyn cynyddu darpariaeth ddwyieithog a'r graddau y mae cyflogwyr yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain* (2009) yn cyfeirio at sefydlu 'Y Coleg Ffederal' fel mesur allweddol ar gyfer 'datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg' ac i ddarparu 'cysylltiadau mwy systematig ag addysg bellach ac ysgolion' (tud 4), o fewn cyd-destun yr agenda

Trawsnewid. Mae'r ddogfen yn mynd rhagddi i ddweud y bydd model 'Y Coleg Ffederal yn darparu dull annibynnol o oruchwylio, rheoli a datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru' a fydd 'yn helpu i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i'r rhai sy'n awyddus i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond gallai hefyd sicrhau budd economaidd drwy fynediad gwell at gyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu, a chyfleoedd busnes sy'n manteisio ar y potensial a gynigir gan amgylchedd dwyieithog' (tud 14). Cafodd y Coleg Ffederal, a ailenwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ei sefydlu ym mis Mehefin 2011 i ddarparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg trwy brifysgolion lleol i fyfyrwyr Addysg Uwch yng Nghymru. Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau gyda gwaith y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg blaenorol ond bydd ei gylich gwaith yn ehangach na hyn.

Yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) yng Nghymru, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai angen gostwng y niferoedd yn dilyn cyrsiau HCA dros nifer o flynyddoedd er mwyn cyfartalu â'r galw gan ysgolion a'u cynhelir. Yn ogystal, cyhoeddodd y llywodraeth raglen i ail-strwythuro darparwyr HCA yn y brif ffrwd yn sgil y gostyngiad mewn niferoedd. Rhagwelwyd y bydda'r ddarpariaeth yn fwy cynaliadwy gyda llai o ddarparwyr yn cynnig llai o gyfleoedd hyfforddi a gyda mwy o gydweithio er mwyn cynyddu effeithiolrwydd a hybu safonau.

Crëwyd tair canolfan HCA gydweithredol gan chwe darparwr addysg uwch prif ffrwd, pob un yn cynnwys dau bartner:

- o Gogledd a Chanolbarth Cymru (Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth);
- o De-orllewin Cymru (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe); a
- o De-ddwyrain Cymru (UWIC a Phrifysgol Cymru Casnewydd).

Darperir llefydd HCA ychwanegol y tu allan i'r canolfannau hyn gan ddefnyddio dulliau addysgu o bell trwy'r Brifysgol Agored a thrwy HCA seiliedig ar waith trwy'r rhaglen **Rhaglen Athrawon Graddedig**

Mae *Arweiniad ar gyfer Arolygu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon* (2010) Estyn yn nodi y bydd arolygwyr yn barnu cyflawniadau hyfforddeion yn yr iaith Gymraeg yn ôl y graddau y mae hyfforddeion (cynradd ac uwchradd) yn gallu 'defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gwaith yn yr ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio Cymraeg achlysurol,

arddangosiadau dwyieithog' ac 'addysgu'n ddwyieithog, lle bo'n briodol'. Yn achos unigolion sy'n dewis hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg, rhoddir ystyriaeth hefyd i'w gallu i 'addysgu'n rhugl ac yn ystyrllon trwy gyfrwng y Gymraeg' (tud 17). Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried 'i ba raddau y mae hyfforddeion yn gallu gwneud defnydd o'r ddarpariaeth i wella eu medrau ieithyddol er mwyn iddynt allu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ystafell ddosbarth', yn ogystal ag 'argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddeion sy'n dymuno hyfforddi ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg' (tud 24).

Y thema sydd wedi ei phlethu trwy sawl dogfen bolisi ddiweddar, yn cynnwys *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu Cymunedau Dysgu Effeithiol gyda'n Gilydd* (2008) yw'r angen i ddarparwyr dysgu gydweithio i wella ansawdd a rhannu arfer da trwy fentrau fel meincnodi ac adolygu gan gymheiriaid o fewn 'cymunedau dysgu proffesiynol ar lefelau ysgol, awdurdodau lleol a chenedlaethol' (tud 10). Caiff Cymunedau Dysgu Proffesiynol eu harwain gan 'Arweinwyr System' a fydd yn cael eu hariannu trwy'r Gronfa Gwella Ysgolion i arwain prosiectau ymchwil neu ymgyrchoedd i wella safonau. Caiff Arweinwyr System Cymru, ar y llaw arall, eu penodi gan awdurdodau lleol i archwilio ysgolion yn drwyadl trwy gyfres o ymweliadau ysgol. Rhoddir pwyslais ar weithio o fewn ardaloedd consortiwm CCAC er mwyn cynyddu adnoddau a chynllunio gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithiol.

Cred ganolog y Strategaeth yw y dylai 'tua 70% o amser y cwricwlwm fod trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i ddysgwyr feistrolï'r iaith yn ddigon cadarn i'w galluogi i'w defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn hyderus ac yn rhugl' (tud 8). Ar sail hyn, mae'r Strategaeth yn canolbwyntio cryn dipyn ar ymestyn mynediad i addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad mewn ystod o leoliadau ar draws Cymru. Er ei bod yn cydnabod yr angen i godi safonau addysgu'r Gymraeg Ail iaith, mae'r Strategaeth yn ymwneud yn bennaf ag addysgu Cymraeg fel 'iaith gyntaf' a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm.

Fodd bynnag, fel y nodir yn *Nogfen Ymgynghori Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2009), 'mae patrymau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru yn gymhleth. Ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng awdurdodau [lleol] o ran y polisiâu a roddir ar waith i hyrwyddo a datblygu sgiliau iaith', sydd yn aml yn adlewyrchu 'patrymau defnydd ieithyddol yn y gymuned ehangach' ac weithiau

‘anghysondebau yn y ffordd y caiff polisïau eu rhoi ar waith’. Mae’r ddogfen yn mynd ymlaen i ddweud ‘hyd yn oed o fewn awdurdodau ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng ysgolion o ran y graddau y defnyddir y Gymraeg a’r Saesneg fel cyfrwng addysgu’. Er ei fod yn cydnabod bod ‘angen i’r system addysg fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu nodweddion ieithyddol gwahanol awdurdodau a rhanbarthau’, mae’r ddogfen hefyd yn cyfeirio at yr angen am ‘ddealltwriaeth glir o’r meini prawf a’r disgwyliadau’ mewn perthynas â defnyddio’r Gymraeg mewn addysg (tud 40).

Mae’r ddogfen ymgynghori’n sôn am yr anhawster i ddiffinio’n union yr hyn a olygir wrth ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi diffiniad o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn 2006 ac o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn 2007. Yn gysylltiedig â hyn, mae prinder data dibynadwy’n ymwneud â rhai agweddau ar addysg cyfrwng Cymraeg, sy’n ychwanegu at yr her o werthuso gweithredu’r Strategaeth.

Er gwaethaf cymhlethdodau diffinio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae’r duedd benodol i ddisgyblion symud o astudio’r Gymraeg fel iaith gyntaf i’w hastudio fel ail iaith yn her allweddol y mae’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ceisio mynd i’r afael â hi, yn arbennig yn ystod y cyfnod pontio rhwng ysgol gynradd ac uwchradd, ond hefyd wrth i bobl ifanc symud i Gyfnod Allweddol 4. Nod y Strategaeth hefyd yw mynd i’r afael â’r duedd i bobl ifanc sy’n astudio’r Gymraeg fel iaith gyntaf newid cyfrwng iaith wrth astudio pynciau eraill wrth iddynt fynd trwy eu gyrfa addysg i mewn i Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Uwch.

Bydd angen ymarferwyr â’r sgiliau priodol ar draws yr ystod o leoliadau i weithredu’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, ynghyd â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru fel y Cyfnod Sylfaen a’r Llwybrau Dysgu 14-19. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd sylweddol fod prinder ymarferwyr perthnasol yn y gweithlu presennol yn gweithredu fel toriad ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae angen twf sylweddol yn niferoedd yr ymarferwyr â’r sgiliau priodol. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni’r twf angenrheidiol trwy recriwtio ymarferwyr newydd â’r sgiliau cywir yn unig - bydd angen datblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg y gweithlu presennol hefyd, o ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, staff addysgu a chymorth, hyfforddwy, arholwyr a gwirwyr mewn disgyblaethau galwedigaethol. Mae’r Ddogfen Ymgynghori yn dadlau bod ‘angen i’r broses o recriwtio a hyfforddi pob ymarferydd fod yn seiliedig ar ... ddarlun gwell o

ofynion y sector addysg [a hyfforddiant] cyfrwng Cymraeg yn y tymor canolig i'r hirdymor' (tud 82). Yn y cyd-destun hwn, mae'n nodedig bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn ymwneud â chynorthwyr gofal plant ac ystafell ddosbarth yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Ddogfen Ymgynghori'n nodi mai ychydig gymwysterau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig, yn arbennig cymwysterau galwedigaethol. Yn yr un modd, mae ystod yr adnoddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn eithaf cyfyngedig. Mae'r ddogfen yn nodi bod hyn oherwydd methiant yn y farchnad yn ymwneud â galw cymharol isel am gymwysterau ac adnoddau o'r fath. Mae'r Strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r gwendid hwn trwy roi cymhorthdal i gynhyrchu adnoddau wedi eu targedu a thrwy sicrhau bod y system addysg a hyfforddiant yn manteisio ar dechnolegau newydd i hwyluso dysgu cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn cydnabod 'na all addysg a hyfforddiant yn unig sicrhau bod siaradwyr yn rhugl yn y Gymraeg. Mae lluo o ffactorau y tu hwnt i gyrraedd addysg a hyfforddiant yn cael dylanwad mawr ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol, ac maent hefyd yn pennu'r graddau y mae siaradwyr yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle' (tud 103). Mae'r ddogfen yn cydnabod bod angen i gyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg gael eu hategu gan ymyriadau sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i sefydliadau addysgol. Mae hefyd yn cyfeirio at yr angen i argyhoeddi pobl am fuddion economaidd a diwylliannol sgiliau dwyieithog fel ffordd o annog caffael a defnyddio'r iaith Gymraeg.

Mae'r cyfrif cymharol fyr hwn o ddatblygiad polisïau iaith Gymraeg ac addysg/sgiliau yn rhoi rhagflas o'r cydgysylltiad rhwng y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r cyd-destun polisi ehangach. Wrth wneud hyn, mae'n amlygu'r angen am fframwaith gwerthuso sydd yn sensitif i'r cysylltiadau hyn wrth gadw ffocws ar ddyheadau sylfaenol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ei hun. Mae hefyd yn cyfeirio at y potensial ar gyfer defnyddio canfyddiadau gwerthusiadau polisi eraill i lywio gwerthusiad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg dros amser ac mae hyn yn amlwg yn rhywbeth y bydd angen i'r fframwaith gwerthuso gynllunio ar ei gyfer.

ATODIAD 2: RHESTR O GYFRANWYR

Enw	Corff
Helen Arthur	Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol, AAaS
Heledd Bebb	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Meinir Edwards	Yr Is-adran Cwricwlwm, Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc, AAaS
Arwel George	CYDAG
Alma Harris	Uwch Gyngorydd Proffesiynol i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â Chymunedau Dysgu Proffesiynol
Jon Hawkins	Cangen y Cyfnod Sylfaen, Yr Is-adran Cwricwlwm, Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc, AAaS
Stephen Hughes	Uned Ystadegau Addysg a Dysgu Gydol Oes
Alun Huws	Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol, AAaS
Marian Jebb	Is Adran Addysg Bellach, AAaS
Ceinwen Jones	Uned y Gymraeg mewn Addysg
David Jones	ColegauCymru
Delyth Einir Jones	Is-adran Cymwysterau a Dysgu, AAaS
Huw Jones	Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru
Huw Onllwyn Jones	Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth
Hywel Jones	Mudiad Ysgolion Meithrin
Meirion Prys Jones	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Nia Jones	Uned Ystadegau Addysg a Dysgu Gydol Oes
Rachel Lloyd	Uned Ystadegau Addysg a Dysgu Gydol Oes
Einir Kirkwood	Uned y Gymraeg mewn Addysg
Gari Lewis	Uned y Gymraeg mewn Addysg
Gwyn Lewis,	Prifysgol Bangor
Chris Llewelyn	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ioan Matthews	Coleg Cymraeg Cenedlaethol
David Middleton	Y Gangen Cefnogi Cyflawni
Meriel Parry	CYDAG
Awen Penri	Uned y Gymraeg mewn Addysg
Helen Prosser	Canolfannau Cymraeg i Oedolion
Angharad Reed	Estyn
Rachel Stephens	Yr Isadran Busnes a Sgiliau
Richard Thurston	Isadran Ymchwil Gymdeithasol
Mererid Wyn Williams	Estyn

ATODIAD 3: LLYFRYDDIAETH

Colegau Cymru (2010) National Strategaeth Genedlaethol ar Ddwieithrwydd yn AB
<http://www.collegeswales.ac.uk/cy-GB/cyhoeddiadau-24.aspx>

Estyn (2010) Y Fframwaith Arolygu Cyffredin o Fedi 2010
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/11466/common-inspection-framework-from-september-2010/>

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion cynradd o Fedi 2010
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/8463/guidance-for-the-inspection-of-primary-schools-from-september-2010/>

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion uwchradd o Fedi 2010
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/8517.6/guidance-for-the-inspection-of-secondary-schools-from-september-2010/>

Estyn (2010) Arweiniad atodol ar gyfer arolygu'r Iaith Gymraeg mewn ysgolion
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/10537.8/arweiniad-atodol-ar-gyfer-arolygu-iaith-gymraeg-mewn-ysgolion-medi-2010/>

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach o Fedi 2010
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/8190/guidance-for-the-inspection-of-further-education-institutions-from-september-2010/>

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu canolfannau rhanbarthol Cymraeg i oedolion o Fedi 2010
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/7152.6/guidance-for-the-inspection-of-welsh-for-adults-regional-centres-from-september-2010/>

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu darparwyr dysgu yn y gwaith o Fedi 2010
http://www.estyn.org.uk/publications/Estyn%202010%20-%20WfA%20guidance%20handbook_100910%20%20final.pdf

Estyn (2010) Arweiniad ar Arolygiadau Ardal o Fedi 2010
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/6715.8/guidance-on-area-inspections-from-september-2010/>

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu hyfforddiant cychwynnol i athrawon o Fedi 2010
<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/8299.2/guidance-for-the-inspection-of-initial-teacher-training-from-september-2010/>

London Economics, Johnes G. and Burrowes E., (2006) The Cost of Welsh Medium Provision, HEFCW

London Economics and Dateb (2008) Interim Evaluation of the Welsh Medium Postgraduate Scholarship and Postdoctoral Teaching Fellowship Schemes, HEFCW
http://www.londecon.co.uk/le/publications/pdf/Sch_Fship_interim_evaluation_-_Final_Report.pdf

London Economics, Dalton P. and Johnes G. (2011) Review of statistical planning issues underlying Welsh medium initial teacher training, HEFCW
<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/reports/rev-teacher-training-stats?lang=en>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007) Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru)
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/2316/pdfs/wsi_20072316_mi.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa_20080002_we.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/pdfs/mwa_20090001_we.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (2001) Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru National Basic Skills Strategy for Wales

<http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/403829/basicskills-w.pdf?lang=cy>

Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (2011) Polisiâu Sgiliau a'r Iaith Gymraeg

<http://www.wesb.org.uk/about/publicationss/skillspolicies/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Iaith Pawb

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbe.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2003-04

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithannual0304/200304w.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2004-05

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithannual0405/200405w.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2005-05

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithannual0506/200506w.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Monitoring and Evaluation of the Effective Implementation of the Foundation Phase (MEEIFP) Project Across Wales

http://wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/whatisfoundation/fprelateddocuments/finaevaluationfullreporte.pdf?lang=en

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen Cynllun Gweithredu

http://wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/whatisfoundation/fprelateddocuments/buildingfoundationphasew.pdf?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2006-07

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithannual0607/200607.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Cymru'n Un: Agenda flaengar ar gyfer

Llywodraeth Cymru: Cytundeb rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cenedlaethol

<http://wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalese.pdf?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg

<http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/1080190/defining-schools-welsh-medi1.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau: Canllawiau Cynllunio a Rheoliadau i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc: Cylchlythyr Rhif: 31/2007

http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/1080190/CYPP_Guidance_FINAL_w_6-09.pdf?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol i Ymarferwyr a'r Cynllun Sabothol

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2007-08

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithannual0708/w.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

http://wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/welshnc/welshcym.pdf?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Datblygu'r Gymraeg

http://wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/whatisfoundation/page4/sevenareas/welshlanguage/welshlangdevw.pdf?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

<http://www.arsyllfadygu.com/uploads/publications/1332.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Trawsnewid – Y Siwrnai: Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091125transformationcy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Gwerthusiad o'r Prosiectau Peilot Addysg Drochi a Dysgu Iaith Trwy Ddulliau Dwys

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2008-09

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithannual/report?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/qualityframeworkpost16/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Cylchlythyr

Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 021/2009

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090918schoolorganisationcy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091209forourfuturecy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Dogfen Ymgynghori

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/090507wmscy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol Estynedig Beilot i Ymarferwyr

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100114nptpreportcy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Dogfen Ymgynghori: Trefniadaeth ysgolion – newidiadau posibl i'r broses Newidiadau posibl i'r prosesau cyfreithiol sy'n berthnasol i drefniadaeth ysgolion, gan gynnwys newidiadau i ysgolion, ysgolion newydd neu gau ysgolion

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/101126schoolorgcy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategygyv.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Manyleb Rhahglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011/2014
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100806progspecificationen.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Dogfen Ymgynghori: Iaith Fyw: Iaith Byw. Strategaeth ar gyfer y Gymraeg
<http://wales.gov.uk/docs/drah/consultation/20101213alivinglanguagecym.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Uchelgeisiau i'r Dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/research/101115futureambitionsy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Gwerthusiad o Raglen Cymraeg i Oedolion

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg o Wasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Canllawiau dros dro Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc 2011-2014
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/100730cypguidancecy.doc>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006) Ffurfi a Chanllawiau ar gyfer llunio Cynlluniau Addysg Gymraeg Awdurdodau Addysg Lleol Cymru o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993
<http://www.bvig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/85.doc>

Tudalennau gwe a'u hadolygwyd:

<http://www.sefwales.co.uk/sef-p2-home/sef-p2-about-sef/sef-p2-about-sef-2/sef-p2-sef-doc.htm>

<http://www.wlqa.gov.uk/english/21st-century-schools-programme/>
<http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2010/10031621st/:jsessionid=FSjDNXvJhYpm0HnhQpFpBQ2W2fJrvW1ZypxGfY2F5k1fdb3rGzn!323087071?lang=en>

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home.htm>

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/el_3_-10-r08.htm

<http://www.aucyfrwngcymraeg.ac.uk/en/about-us/coleg-ffederal/>